# JOHN, WALTER PHILLIPS (1910 - 1967), gweinidog (B)

**Enw:** Walter Phillips John
**Dyddiad geni:** 1910
**Dyddiad marw:** 1967
**Priod:** Nansi John (née Jones)
**Rhiant:** Susannah Mary John (née Rees)
**Rhiant:** D.R. John
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (B)
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Morgan John Williams

Ganed 31 Ionawr 1910 yn y Gilfach, ger Bargod, Morgannwg, yr ail o bum plentyn D. R. John, gweinidog (B) a'i briod, Susannah Mary (ganwyd Rees), y ddau o ardal Pen-y-groes ger Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. Bu'r tad yn weinidog eglwysi yn y Bargod, Porth (Rhondda), Abercynon ac eglwys hynafol Rhydwilym. Addysgwyd Walter P. John yn ysgol ramadeg, Aberpennar, coleg y Bedyddwyr a Choleg y Brifysgol, Caerdydd (1928-34), gan raddio yn y celfyddydau a diwinyddiaeth. Tra oedd yn yr ysgol ramadeg ef ac R. E. Griffith a sefydlodd y gangen gyntaf o Urdd Gobaith Cymru yn ne Cymru, yn Abercynon.

Cychwynnodd ei weinidogaeth yn y Tabernacl, Pontarddulais, ym Medi 1934 ac yn Hydref 1938 symudodd i ofalu am eglwys Castle Street, Llundain. Bu yno hyd ei farwolaeth ar 15 Mawrth 1967. Ymbriododd â Nansi, unig blentyn Morgan A. Jones, gweinidog (B) yn Hendy-gwyn ar Daf ac wyres Daniel Jones, ei ragflaenydd. Daeth Walter P. John i amlygrwydd yn bur gynnar yn ei yrfa fel pregethwr diwylliedig a choeth a galw mawr am ei wasanaeth yng ngwyliau pregethu ei enwad ei hun ac enwadau eraill yng Nghymru a Lloegr. Meistrolodd hefyd gelfyddyd darlledu. Yr oedd yn rhyddfrydol ei safbwynt ac yn fawr ei sêl dros gyd-ddeall a chydweithrediad rhwng y cyrff crefyddol yng Nghymru. Bu'n gydawdur (â Gwilym T. Hughes) *Hanes Castle Street a'r Bedyddwyr Cymraeg yn Llundain* (1959), ac wedi ei farwolaeth casglwyd rhai o'i bregethau a'i ysgrifau yn gyfrol, *Rhwydwaith Duw* (1969).

## Awdur

**Morgan John Williams**, (1910 - 1995)

## Ffynonellau


*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru*, 1968

teyrnged gan Syr Ben Bowen Thomas yn *Rhwydwaith Duw casgliad o homilïau a phregethau* (1969)

adnabyddiaeth bersonol


## Darllen Pellach

Undeb Bedyddwyr Cymru: John – Walter Phillips (1910 – 1967)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734561

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu